**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Mawrth 2017

Annwyl Simon,

**Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**

Rwy'n ysgrifennu i roi diweddariad ichi am y gwaith o ddatblygu Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Cyhoeddais bapur diweddaru ym mis Rhagfyr 2016, yn amlinellu'r penderfyniadau allweddol a oedd wedi eu gwneud hyd at yr adeg honno wrth ddatblygu Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Roedd y papur yn nodi sut y bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu yng ngoleuni'r broses ymgysylltu eang sydd wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae wedi bod o gymorth wrth inni fynd ati i gynllunio ar gyfer parhad y cynllun. Roedd y papur yn gyfle i randdeiliaid roi sylwadau ar y camau nesaf yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r papur yn cefnogi'r syniad o symleiddio trefniadau gweinyddu'r cynllun a hefyd yn cefnogi'r syniad o estyn y cynllun i gynnwys gorsafoedd trosglwyddo gwastraff sy'n anfon o leiaf 2,000 tunnell o wastraff i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.

Bydd ehangu cwmpas y cynllun fel hyn yn sicrhau ei fod yn agored i ardaloedd nad ydynt wedi cael cyfle i fanteisio ar y ffynhonnell ariannol hon o'r blaen. Y nod hefyd yw ceisio cydnabod y cymunedau hynny sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y broses o roi gwastraff mewn safleoedd tirlenwi. Byddwn yn disgwyl i bob prosiect ddangos sut mae'n cydweddu â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Roedd yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid hefyd yn cynnwys sicrhau nad yw'r amodau ar gyfer bod yn gymwys i gael arian yn cyfyngu gormod ar brosiectau bioamrywiaeth; yn tynnu sylw at fanteision prosiectau aml-flwyddyn a phwysigrwydd cynnwys prosiectau sy'n gwella llesiant cymunedau mewn unrhyw gynigion ar gyfer y cynllun. Dywedodd rhanddeiliaid hefyd ei bod yn bwysig bod y cynllun yn cadw hyblygrwydd i sicrhau bod modd iddi wneud gwahaniaeth i gymunedau.

Byddaf yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r papur diweddaru hyd yma, a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyllid yn ystod o broses o graffu ar Bil Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) cyn lansio'r ymarfer caffael i benodi corff dosbarthu i reoli'r cynllun. Byddaf yn rhoi syniad o'r swm ar gyfer cyllido'r cynllun, ynghyd â manylion pellach am sut y bydd yn gweithredu, yn ystod yr ymarfer caffael.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government